

Prifysgol Cymru Aberystwyth 1872 The University of Wales

Gwasanaethau Gwybodaeth
Information Services

BUDDSODDWR MEWN POBL

NEWYDDION GG

http://www.inf.aber.ac.uk/news/cymraeg/isnews.asp

Hydref 2005

Ceir yn y fersiwn brintiedig hon o Newyddion GG ond ychydig o'r eitemau newyddion yn llawn, ynghyd â nifer o gyflwyniadau byr i eraill a geir yn eu cyfanrwydd yn y fersiwn arlein. Gellir dilyn erthygl unigol naill ai drwy glicio ar y cyfeiriad, neu drwy news.asp. Ceir yno hefyd ôl-rifynnau ynghyd ag eitemau ac erthyglau diweddar nas ceir yn y fersiwn brintiedig hon.

Casgliadau ac arddangosfeydd llyfrau prin

Mae casgliadau llyfrau prin y Llyfrgell yn gymysgedd o hen eitemau ac eitemau prin, ac enghreifftiau o argraffu neu gynhyrchu cain. Maen nhw'n cynnwys casgliadau yn enw perchnogion penodol sydd wedi'u cymynroddi i'r Llyfrgell neu wedi'u prynu ganddi, neu gasgliadau penodol sydd wedi'u ffurfio o fewn pynciau neu themâu.



Sir Gawain and the Green Knight, cyfieithiad rhyddiaith gyda chyflwyniad gan Gwyn Jones. Golden Cockerel Press, Llundain 1952

Mae Cronfa Ddata newydd o Lyfrau Prin yn cynnig cyfle i chwilio am y llyfrau prin hynny sydd heb gael eu hychwanegu eto at Voyager (catalog ar-lein y Llyfrgell). Hyd yn hyn, nid yw'r gronfa ddata'n cynnwys y llyfrau prin sy'n cael eu cadw yn llyfrgell Thomas Parry, ond gobeithio y gall y rhain gael eu hychwanegu yn nes ymlaen.

Mae'r gronfa ddata newydd i'w gweld drwy ddefnyddio'r tab Llyfrau Prin ar sgrin chwilio Voyager. Dylech chwilio'r gronfa ddata newydd a chatalog Voyager er mwyn cyrchu holl amrywiaeth y deunyddiau ymysg y llyfrau prin. Gall ceisiadau am weld eitemau gael eu gwneud ar-lein, a hynny drwy'r ddwy system ar wahân.

Ar y cyd ag ehangu'r cyfle i weld y casgliadau o lyfrau prin, mae yna arddangosfeydd llyfrau prin bellach ar Lefel E a Lefel F yn Llyfrgell Hugh Owen. Mae'r arddangosfeydd yn cynnwys enghreifftiau gwych o'r deunyddiau sydd gan y llyfrgell ac fe fyddan nhw'n newid yn rheolaidd. Ewch ati i edrych ar y gronfa ddata a'r arddangosfeydd os oes amser gennych.

I gael rhagor o wybodaeth am chwilio am Lyfrau Prin a gofyn amdanyn nhw, ewch i: http://www.inf.aber.ac.uk/publications/cymraeg/leaflets/ll26h.asp

I gael rhagor o wybodaeth am gasgliadau penodol, edrychwch ar http://www.inf.aber.ac.uk/academicliaison/cymraeg/collections/

Dermot Ryan, Arweinydd y Tîm Rheoli Casgliadau (drr@aber.ac.uk)

Storfeydd traethodau ymchwil electronig

Mae'r gwaith wedi cychwyn ar brosiect, a ariannir gan y JISC, o Bontio Storfeydd, prosiect sy'n ymchwilio i allforio copïau electronig o draethodau ymchwil o storfa sefydliadol (y brifysgol) i storfa genedlaethol (Llyfrgell Genedlaethol Cymru). Y partner sy'n arwain y prosiect hwn yw Gwasanaethau Gwybodaeth, sy'n gweithio gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Phrifysgol Cymru Abertawe.

Ar hyn o bryd, caiff pob traethawd ymchwil PhD a rhai traethodau ymchwil gradd meistr a gynhyrchir mewn prifysgolion yng Nghymru eu hadneuo yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac os yw sefydliadau yng Nghymru yn bwriadu elwa ar fanteision adneuo traethodau ymchwil yn electronig, bydd angen caniatáu i draethodau ymchwil electronig gael eu hadneuo yn y Llyfrgell Genedlaethol, gan ddilyn patrwm y drefn bresennol. Y bwriad yw i'r traethawd ymchwil, ar ôl iddo gael ei adneuo yn storfa electronig y brifysgol, gael ei allforio i'r Llyfrgell Genedlaethol yn awtomatig. Byddai hynny hefyd yn fodd i'r Llyfrgell Genedlaethol weithredu fel storfa Cymru ar gyfer Cronfa Ddata'r Deyrnas Unedig o Draethodau Ymchwil, sef cronfa sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd.

Mae mwy a mwy o ddiddordeb mewn adneuo copïau electronig o draethodau ymchwil. Un o fanteision hynny yw y bydd yn hwyluso mynediad i waith ymchwil gwreiddiol y gallai'r gymuned ymchwil yn gyffredinol fethu â sylwi arno fel arall am fod traethodau ymchwil confensiynol ar bapur yn anodd dod o hyd iddynt ac, o ddod o hyd iddynt, yn anodd cael gafael arnynt. Mae storio traethodau ymchwil yn electronig yn ateb y ddwy broblem am fod modd dod o hyd i'r traethodau drwy chwilio'r We a'u llwytho i lawr. Yr ydym wrthi'n rhagbrofi defnyddio storfa electronig ar gyfer traethodau ymchwil (a deunyddiau eraill) a'i rheoli drwy ddefnyddio meddalwedd rheoli storfeydd Dspace, ac mae'r Llyfrgell Genedlaethol wrthi'n rhagbrofi defnyddio Fedora i reoli ei storfa electronig hithau.

Ceir rhagor am Bontio Storfeydd ar wefan y prosiect, sef http://www.inf.aber.ac.uk/bridge/ ynghyd â chysylltau i wefannau eraill sy'n ymdrin â thraethodau ymchwil electronig, neu bydd croeso i chi gysylltu â swyddog y prosiect, Jon Bell (jpb@aber.ac.uk)

Thomas Pennant, Esq, Tours of Wales. Argraffwyd i Wilkie a Robinson etc, Llundain 1810

Rhifau PIN er mwyn Gwell Diogelwch Defnyddwyr

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi derbyn nifer o geisiadau gan ddefnyddwyr am well mesurau diogelwch i warchod eu data personol ar Voyager a hefyd i atal camddefnyddio cardiau – sydd naill ai wedi eu colli neu wedi eu dwyn – ar y peiriannau hunanfenthyca.

O ddechrau'r sesiwn newydd ym mis Hydref fe gyflwynir system ddiogelwch rhif PIN ar gyfer holl ddefnyddwyr Gwasanaethau Gwybodaeth. Bydd defnyddwyr hen a newydd yn derbyn rhif pum digid drwy e-bost. Fe fydd yn bosibl i bawb newid eu rhif PIN ar y we drwy ddilyn cyfarwyddiadau syml. Ond os collir, neu anghofir, y rhif, fe fydd yn rhaid cael un newydd gan y llyfrgell.

Bydd y rhifau PIN yn rhoi gwell diogelwch i ddefnyddwyr ar y peiriannau hunanfenthyga. Bydd yn rhaid eu cael i weld gwybodaeth bersonol ar Voyager. Gellir cael mwy o wybodaeth gan y Llyfrgellydd Benthyca, Mrs Judy Lile (jvl@aber.ac.uk neu x2400).

Rheoli Cofnodion

Mae Rheoli Cofnodion yn swyddogaeth bwysig i'r drefniadaeth mewn unrhyw sefydliad, ac yn enwedig felly mewn Prifysgol. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, dechreuodd Lucy Burrow, y Rheolwr Cofnodion ar y pryd, waith ar Storfa Gofnodion ar Gampws Penglais. Ymadawodd Lucy yn gynharach eleni i weithio ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'r gwaith Rheoli Cofnodion wedi'i ysgwyddo bellach gan Katy Thomas. Dyma ddechrau ar ail gyfnod y rhaglen Rheoli Cofnodion wrth i'r Storfa ddatblygu'n gyfleuster sy'n gweithio'n llawn, sef cyfleuster y bydd yr adrannau'n dibynnu arno i storio amrywiaeth o ddogfennau.

Am fwy o wybodaeth gweler: http://www.inf.aber.ac.uk/news/cymraeg/oct05/rmp.asp

Land Life & Leisure

Land, Life & Leisure yw'r enw newydd ar y gwasanaeth gwybodaeth ar-lein llwyddiannus (gynt o'r enw Update: Farming and Countryside Index) a gynhyrchir yn PCA ac sy'n cael ei werthu i sefydliadau drwy'r DG a thu hwnt gan JISC (Joint Information Services Committee). Mae'r enw newydd yn adlewyrchu rhychwant eang y cynnwys a'i ddefnyddioldeb i ddefnyddwyr o amryfal gefndiroedd.

Am fwy o wybodaeth am gynnwys y bas data cenedlaethol pwysig hwn, gweler: http://www.inf.aber.ac.uk/news/cymraeg/oct05/lll.asp

Newidiadau i'r Gwasanaethau Argraffu

Ym mis Medi daeth y gwasanaeth argraffu du a gwyn 'canolog' yn yr Ystafell Gyfrifiadurol i ben. Symudwyd yr argraffydd i ystafell G38 yn adeilad Parry-Williams (ATFfT). Mae hyn yn gadael yr argraffydd yn Ardal y Defnyddwyr y tu allan i'r Ystafell Gyfrifiadurol ar gyfer defnyddwyr yn Llandinam, gan ar yr un pryd ddarparu gwasanaeth newydd mewn adeilad a fu hyd yn hyn heb argraffydd.

Jeremy Perkins, Is-Gyfarwyddwr Gwasanaethau Canolog TG (jwp@aber.ac.uk)

Sophos

Mae Sophos, cyflenwyr meddalwedd gwrth-feirws y Brifysgol, wedi rhyddhau fersiwn newydd o'u cynnyrch, 'Sophos Anti-Virus 5'. Mae'r fersiwn yma'n newid sylweddol o'r fersiwn bresennol ac yn cynnig gwell diogelwch i gyfrifiaduron y Brifysgol. Bydd diweddariadau a chymorth ar gyfer y fersiwn bresennol yn dod i ben ym mis Chwefror 2006 pan fydd raid i ddefnyddwyr newid i 'Sophos Anti-Virus 5'.

Gweler http://www.inf.aber.ac.uk/security/cymraeg am fanylion.

Timothy Paul Davies, Rheolwr Systemau Pen Ddesg (tid@aber.ac.uk)

Llwybr Syth i Destun Llawn

Rydym wedi ychwanegu gwasanaeth newydd sy'n cysylltu cyfnodolion electronig i nifer o'n hadnoddau gwybodaeth ar lein. Mae yn awr gysylltiad rhwng dyfyniad mewn bas data tebyg i Web of Science a thestun llawn o'r erthygl os ydym yn tanysgrifio i'r cyfnodolyn ar ffurf electronig – dilynwch y botwm melyn **Ar Gael**. Treialwyd LinkFinderPlus ar ddechrau 2005 pan osodwyd y cysylltiadau angenrheidiol i gynnwys ein cyfnodolion electronig a'i gael i weithio gyda'n basau data ar lein.

Am fwy o wybodaeth am y cysylltiadau hyn, gweler: http://www.inf.aber.ac.uk/academicliaison/cymraeg/linkresolver.asp

Elizabeth Kensler, Tîm Cynorthwywyr Pwnc ac E-Lyfrgell (eak@aber.ac.uk)

Gwnewch Gopi Wrth Gefn o'ch Data er Lles eich Iechyd Meddwl

Does dim byd yn waeth na threulio oriau yn llafurio i gwblhau eich gwaith dim ond i golli'r cyfan oherwydd problemau technegol, feirws neu esgeulustod. Gellir osgoi'r problemau hyn i gyd – a phwysedd gwaed uchel – drwy wneud copi wrth gefn. Os nad yw synnwyr cyffredin eisoes wedi eich argyhoeddi o'r angen i wneud hyn, darllenwch ymlaen.

http://www.inf.aber.ac.uk/news/cymraeg/oct05/backup.asp



Allan Ahlberg, Janet's Last Book: Janet Ahlberg 1944-1994 A Memento. Argraffwyd gan yr awdur ar gyfer cylchrediad preifat, 1996

Llwybr haws i Athens! (Ffynhonnell wybodaeth electronig PCA)

Er mis Medi 2005 mae ffordd haws o ddefnyddio Athens i gael mynediad i adnoddau electronig PCA. Bellach mae mynediad ar gael drwy E-Wybodfa neu JoEy, ac yna drwy ddefnyddio'r cysylltiad ar frig y tudalennau. Mae'r ffordd hon yn gyflymach, yn symlach ac yn llai dryslyd na'r hen ffordd 'uniongyrchol'.

Eglurwyd yn y rhifyn blaenorol o Newyddion GG sut mae Athens (DA) yn cael gwared â'r angen am enw defnyddiwr a chyfrinair ar wahân drwy ddefnyddio eich enw defnyddiwr arferol. Mae'r cyfarwyddiadau a roddwyd bryd hynny yn dal yn ddilys os ydych yn mynd yn uniongyrchol at adnodd, ond rydym yn argymell y llwybr drwy E-wybodfa a Joey.

Gweler: http://www.inf.aber.ac.uk/academicliaison/cymraeg/elecinfo.asp#Athens

Sandra Morris, Swyddog Datblygu Gwybodaeth Electronig,
Tîm Cynorthwywyr Pwnc ac E-Lyfrgell (ssm@aber.ac.uk)

Twyll E-bost – pethau i chwilio amdanyn nhw

Ry'n ni i gyd wedi'u derbyn nhw ond beth yw'r ffordd orau o ddelio â nhw? Am gyngor ymarferol a'r diweddaraf am y frwydr yn erbyn y negeseuon hyn, gweler: http://www.inf.aber.ac.uk/news/cymraeg/oct05/scams.as

CyMAL

Mae CyMAL, y corff sy'n gyfrifol am Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru, yn chwilio ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru am bartneriaethau i ymestyn mynediad i adnoddau llyfrgelloedd yng Nghymru. Yn dilyn yr alwad ddiweddaraf am geisiadau, mae Gwasanaethau Gwybodaeth Aberystwyth wedi cael £10,500 i ddatblygu consortiwm 'Linc y Canolbarth' gyda Phrifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan a Choleg y Drindod, Caerfyrddin. Bydd 'Linc y Canolbarth' yn cynnig benthyca rhyng-lyfrgellol rhwng tair llyfrgell y bartneriaeth, yn ehangu mynediad i gasgliadau academaidd ac arbenigol, ac yn ariannu rhaglenni hyfforddi staff yn y gwahanol sefydliadau. Bwriedir cychwyn y cynllun benthyca yn yr hydref pan fydd gwybodaeth bellach am y gwasanaeth newydd ar gael gan Bill Hines (est. 2392) neu whh@aber.ac.uk



Cwotâu E-bost

Er mwyn rheoli'r defnydd a wneir o'n disgiau storio, rydym yn cyflwyno system cwotâu ar holl systemau e-bost y Brifysgol o ddechrau'r flwyddyn academaidd. Ni fydd hyn yn effeithio ar fwyafrif defnyddwyr e-bost ar hyn o bryd, ond maes o law fe all gyfyngu ar yr hyn y byddwch yn gallu ei storio yn IMAP canolog neu wasanaethyddion e-bost Exchange.

Am fwy o wybodaeth ar gwotâu, chwilio a rheoli eich ystorfa e-bost gweler: http://www.aber.ac.uk/~datwww/cymraeg/records-management.shtml

Timothy Paul Davies, Rheolwr Systemau Pen Ddesg (tid@aber.ac.uk)

VOYAGER

Ar 10 Mehefin, torrodd caledwedd y gweinyddydd sy'n rhedeg system rheoli llyfrgell Voyager, ac o ganlyniad nid oedd y gwasanaeth ar gael am sawl wythnos. Mae Gwasanaethau Gwybodaeth yn ymddiheuro i bawb a gafodd broblemau yn sgil y methiant cyfrifiadurol hwnnw ac yn falch o allu dweud bod Voyager yn gweithio'n iawn unwaith eto.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae sawl datblygiad calonogol yn yr arfaeth a cheir manylion amdanyn nhw ar:
http://www.inf.aber.ac.uk/news/cymraeg/oct05/voyager.asp

Newyddion Diweddaraf am Wybodaeth Electronig

Mae nifer o adnoddau electronig newydd pwysig wedi eu hychwanegu dros y misoedd diwethaf ar gyfer defnydd staff a myfyrwyr, ac mae yna nifer o newidiadau i rai adnoddau sy gennym eisoes.

Am yr ychwanegiadau a'r newidiadau yn llawn, gweler: http://www.inf.aber.ac.uk/news/cymraeg/oct05/eiupdate.asp

Gwella mynediad i adnoddau llyfrgell yng Nghymru : Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru (WHELF)

Edward Pugh, Cambria Depicta: A Tour Through North Wales. Argraffwyd gan W Clowes, Llundain 1816

Mae WHELF yn gweithio ar y cyd i ddarparu academyddion, myfyrwyr ac eraill â gwell mynediad i rychwant ehangach o adnoddau llyfrgell yng Nghymru. Drwy Lyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chyfarwyddwyr a Phenaethiaid Llyfrgelloedd a Gwasanaethau Gwybodaeth holl lyfrgelloedd sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru, bwriad WHELF yw llunio atebion ar y cyd er mwyn darparu dewis eang o adnoddau ar gyfer eu defnyddwyr i'w cynorthwyo gydag ymchwil, dysgu ac addysgu.

I'r perwyl hwn, mae WHELF ar hyn o bryd yn hybu gwell ymwybyddiaeth a defnydd o adnoddau Llyfrgell Genedlaethol Cymru http://www.llgc.org.uk/www_c001.htm gan staff academaidd mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Ymhlith llwyddiannau diweddar WHELF mae dau gynllun arloesol i ehangu defnydd o'r holl sefydliadau addysg uwch (WALIA ar gyfer ymchwilwyr a CROESO ar gyfer myfyrwyr); cynigion am brosiectau ar y cyd i hybu casgliadau llyfrgelloedd Cymru ar lein; grŵp (WHISD) bywiog sy'n trefnu gweithgareddau datblygu a hyfforddi staff, gan gynnwys trefnu colocwiwm blynyddol llwyddiannus ar gyfer staff llyfrgelloedd.

Ceir gwybodaeth bellach am waith WHELF ar http://whelf.ac.uk

Elizabeth Kensler, Tîm Cynorthwywyr Pwnc ac E-Lyfrgell (eak@aber.ac.uk)



Professor Wolley Cobble, Peep Show, John Camden Hotten, Piccadilly, Llundain [dim dyddiad]

Mwy o arian i adeiladau Llyfrgell

Mae adroddiadau diweddar gan y Llywodraeth yn cydnabod cyflwr enbyd adeiladau llyfrgelloedd cyhoeddus yn y DG a'r angen am fuddsoddiadau sylweddol, syniadau blaengar a rhannu arferion gorau.

Mae Cynllunio Llyfrgelloedd, prosiect sydd wedi ei leoli yn Aberystwyth ac yn cael ei ariannu gan y Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau, yn cynorthwyo yn y broses drwy gynnig defnydd o luniau a disgrifiadau o brosiectau adeiladau llyfrgelloedd.

Ers yr eitem yn rhifyn Ebrill o Newyddion GG, mae'r safle Designing Libraries – library buildings online a gynlluniwyd ac a gynhelir gan dîm o fewn Gwasanaethau Gwybodaeth, wedi denu arian sylweddol pellach.

Mae'r safle www.designinglibraries.org.uk yn cynnig modd i rannu arbenigedd a phrofiadau drwy fas data rhyngweithiol o luniau a disgrifiadau o brosiectau llyfrgelloedd cyhoeddus diweddar yn y DG, a thrwy gynnig rhychwant eang o adnoddau ar gyfer cynllunio llyfrgelloedd.

Ar hyn o bryd mae'r prosiect yn canolbwyntio ar lyfrgelloedd cyhoeddus yn y DG, ond y bwriad yw ehangu i gynnwys mathau eraill o lyfrgelloedd a gwledydd eraill, a bydd hyn yn gwneud y wefan yn adnodd pwysig i bawb sy'n ymwneud â chynllunio ac adeiladu llyfrgelloedd.

http://www.designinglibraries.org.uk

Alan Clark, Cydlynydd, Prosiect Cynllunio Llyfrgelloedd (ajc@aber.ac.uk)

Tîm Golygyddol

Elgan Davies (epd), Laurence Dupont (lrd), Mary Green (mcg), Jacqui Kenton (jck), Christine Hughes (cmh), Simon Marshall (som), Jackie Woollam (jaw)

Gwasanaethau Gwybodaeth, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, Penglais, Aberystwyth, SY23 3DZ.

Cyhoeddir NEWYDDION GG yn rhad ac am ddim gan Gwasanaethau Gwybodaeth ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Croesewir eich sylwadau a'ch syniadau. Os nad ydych wedi derbyn copi personol ohono ac y dymunwch gael un yn y dyfodol, gellir ychwanegu eich enw at y rhestr ddosbarthu drwy gysylltu â'r Golygydd (epd@aber.ac.uk).